Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

## Canolfan Eni Ysbyty Castell-nedd Port Talbot,

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 4, 5 a 6 Chwefror 2025

Dyddiad cyhoeddi: 9 Mai 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-83715-692-4

© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom ........ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 9

- Ansawdd Profiad y Claf ........ 9
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 16
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 20

4. Y camau nesaf ........ 26

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 27

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith ........ 28

Atodiad C - Cynllun gwella ........ 30

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ganolfan Eni Ysbyty Castell-nedd Port Talbot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 4, 5 a 6 Chwefror 2025.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Uwch-arolygydd Gofal Iechyd AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd menywod a'u teuluoedd i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Dim ond dau ymateb a gafwyd i'r ddau arolwg a oedd yn cynnwys ychydig iawn o wybodaeth. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys adborth a gafwyd yn ystod trafodaethau â'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad ar y safle.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom y staff yn croesawu menywod a oedd yn cyrraedd y Ganolfan Eni gyda gofal, caredigrwydd a pharch. Gwelsom fod y staff yn gweithio'n dda fel tîm i roi profiad cadarnhaol i fenywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth a oedd wedi'i deilwra at yr unigolyn ac a oedd yn canolbwyntio ar eu hanghenion. Roedd pob un o'r menywod a'r bobl sy'n rhoi genedigaeth yn cael eu gofal mewn amgylchedd croesawgar a chartrefol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ar gael er mwyn helpu i gefnogi'r menywod a'u babi pan fyddant yn feichiog
- Ystyried gwella arwyddion yr ysbyty ar gyfer y Ganolfan Eni er mwyn helpu i gyfeirio menywod a'u partneriaid geni i'r ganolfan gyda'r nod o wella eu profiad cyffredinol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr adborth gan fenywod a gasglwyd gan y bwrdd iechyd mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir yn y Ganolfan Eni yn rhagorol
- Gwelsom y staff yn croesawu menywod a oedd yn cyrraedd y Ganolfan Eni ar gyfer apwyntiadau cyffredin gyda gofal, caredigrwydd a pharch
- Y cynlluniau sydd ar waith i ddatblygu'r gwaith mewngymorth i ymgysylltu ymhellach â chymunedau amrywiol a mwy difreintiedig a hyrwyddo'r Ganolfan Eni ynddynt er mwyn cynyddu amrywiaeth y bobl sy'n rhoi genedigaeth a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r ganolfan.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau cadarn ar waith i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r menywod. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod gofal diogel ac effeithiol yn cael ei ddarparu i fenywod a babanod sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Roedd prosesau ac archwiliadau

ar waith i reoli risgiau a threfniadau iechyd a diogelwch. Roedd safon y broses cadw cofnodion yn dda ac yn hyrwyddo dewisiadau priodol ar gyfer menywod. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac yn drefnus iawn. Gwelsom fod prosesau clir ar waith ar gyfer rheoli digwyddiadau clinigol, gan sicrhau bod gwybodaeth a'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu ar draws y gwasanaeth.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal ymarfer herwgydio babanod yn y Ganolfan Eni a dylid rhannu'r gwersi cysylltiedig a ddysgir o'r ymarfer ag aelodau o'r staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd prosesau a meini prawf clir ar waith a oedd yn cael eu rhannu'n effeithiol er mwyn lliniaru risgiau a sicrhau bod menywod a oedd yn dymuno rhoi genedigaeth yn y ganolfan yn bodloni'r meini prawf ac yn dilyn y canllawiau llym

- Mae rhoi llyfr gwaith E-gymunedol digidol ar waith yn arfer canmoladwy sy'n cyd-fynd â'r polisi ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun ac yn helpu i rannu'r llwyth achosion i sicrhau bod pob galwad yn cael ei hateb

- Disgrifiodd y staff y systemau a'r polisïau effeithiol ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol ac fe'u gwelsom ar waith.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Roedd y rheolwyr yn weladwy yn y Ganolfan Eni ac roedd sylwadau yn nodi eu bod yn garedig, yn gyfeillgar, yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Gwelsom fod timau sy'n gweithredu'n effeithiol ar waith. Er mai dim ond yn ddiweddar y mae'r gwasanaeth wedi ailagor ar ôl cyfnod hir o fod ar gau, mae'r ganolfan yn derbyn y gall fod angen newid prosesau yn sgil adborth gan gleifion neu'r staff ac mae'r arweinwyr yn hyderus i gynnig newidiadau.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod y trefniadau ar gyfer sicrhau cyfrinachedd cleifion a chydymffurfiaeth â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR) yn cael eu cynnal bob amser.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd sgrym diogelwch yn cael ei gynnal yn ddyddiol gyda'r staff a oedd yn sicrhau y gellir craffu'n gyson ar y sefydliad

- Nododd y staff eu bod yn cael eu hannog i uwchgyfeirio unrhyw faterion yn ymwneud â chapasiti. Gwelsom fod y staff yn teimlo'n ddiogel yn seicolegol i herio arweinwyr yn briodol ac roeddent yn dangos amgylchedd gwaith cefnogol a chadarnhaol

- Roedd y staff yn teimlo'n hyderus y gallant godi pryderon yn briodol a gwnaethant gyfeirio at ddiwylliant cadarnhaol mewn perthynas â chofnodi ar Datix a dysgu o ddigwyddiadau.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, dim ond un ymateb a gawsom i'n holiadur i gasglu barn menywod a'u teuluoedd. Nid oedd yn bosibl i ni geisio barn wyneb yn wyneb, gan nad oedd unrhyw fenywod a oedd yn rhoi genedigaeth na'u partneriaid yn y Ganolfan Eni yn ystod ein harolygiad. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o'r ffyrdd niferus y gall menywod a'u teuluoedd roi adborth ar eu profiadau.

Gwnaethom edrych ar Adroddiad Profiad y Claf y Ganolfan Eni a luniwyd gan y bwrdd iechyd. Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys adborth ar brofiad y claf gan 24 o fenywod a theuluoedd ers i'r uned gael ei hailagor ym mis Medi 2024 nes 31 Ionawr 2025. Sgôr gyffredinol yr arolygon a ddychwelwyd oedd 96% ac roeddent yn cynnwys adborth rhagorol gan fenywod a theuluoedd a oedd wedi defnyddio'r Ganolfan Eni. Roedd hyn yn cynnwys sylwadau cadarnhaol am sgiliau a phroffesiynoldeb y bydwragedd a'r staff, ynghyd â'r amgylchedd.

Roedd y sylwadau yn Adroddiad Profiad y Claf y Ganolfan Eni yn cynnwys y canlynol:

> *“Roedd pob aelod o'r staff yn arbennig o'r dechrau i'r diwedd. Roedd yr ystafell yn lân iawn ac roedd pawb mor groesawgar ac yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus/hamddenol. Mae'r ystafelloedd preifat mawr ar gyfer y cyfnod ar ôl rhoi genedigaeth yn arbennig ar gyfer mam a'i babi.”*
>
> *“Roedd y cymorth a gefais gan y bydwragedd a'r tîm yn wirioneddol wych. Ni allwn fod wedi teimlo'n fwy diogel nag yr oeddwn i yn yr ysbyty.”*
>
> *“Roedd y bydwragedd yn anhygoel yn ystod fy ngenedigaeth gyntaf, roedd y profiad yn hamddenol, y pwll geni yn arbennig, ac ni allwn fod wedi cael profiad gwell ar gyfer fy esgoriad cyntaf. Byddaf yn siŵr o fynd i'r ganolfan eni eto os byddaf yn cael plentyn arall yn y dyfodol.”*

Fel rhan o'n harolygiad, siaradodd aelod o dîm arolygu AGIC â chynrychiolydd o Grŵp Lleisiau Mamolaeth Bae Abertawe. Ei rôl yw ymgysylltu â'r gymuned leol ac arweinwyr i ddeall profiadau ac anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. Tynnodd y drafodaeth sylw at yr adborth cadarnhaol roedd y Grŵp wedi'i gael gan fenywod yn dilyn eu profiadau yn y Ganolfan Eni. Rhoddwyd gwybod i ni hefyd fod Fforwm

Profiad y Claf wedi cael ei sefydlu er mwyn sicrhau bod dull mwy cyfannol ar waith i gyflawni canlyniadau er mwyn gwella gwasanaethau.

Dywedodd y staff wrthym fod y Grŵp Lleisiau Mamolaeth wedi gweithio'n galed i wella gwasanaethau mamolaeth yn ardal bwrdd iechyd Bae Abertawe. Fodd bynnag, roedd y bwrdd iechyd wedi wynebu heriau wrth gyflawni'r canlyniadau dymunol yn sgil yr adborth a gafwyd gan y cyhoedd oherwydd prinder adnoddau. Dywedwyd wrthym fod Bydwraig Profiad y Claf yn cael ei recriwtio, ac y byddai rhan o'i rôl yn cynnwys gwella'r broses o fonitro cynllun gweithredu'r Grŵp gan weithio ochr yn ochr â Phartneriaeth y Grŵp Lleisiau Mamolaeth. Bydd gan Fydwraig Profiad y Claf rôl reoli hefyd i sicrhau bod system fwy cadarn ar waith i gyflawni'r camau gweithredu ar gyfer cynlluniau Profiad y Claf. Byddai'r rôl hefyd yn rhoi mwy o sylw i leisiau menywod ac yn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn diwallu eu hanghenion.

O fewn y Ganolfan Eni, gwelsom fod taflenni "Dweud eich dweud" ar gyfer Ffrindiau a Theulu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd hyn yn rhoi cyfle i fenywod a phartneriaid geni roi adborth ar eu profiadau.

## Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

**Hybu iechyd**

Gwnaethom edrych ar y wybodaeth hybu iechyd a oedd i'w gweld yn y Ganolfan Eni. Roedd y wybodaeth a oedd ar gael i fenywod a'u partneriaid yn cynnwys gwybodaeth am roi'r gorau i smygu, bwydo ar y fron, imiwneiddiadau ac iechyd rhywiol. Roedd y wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth am fwyta'n iach, gweithgarwch corfforol na gwybodaeth i ofalwyr ar gael. **Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ar gael yn y ganolfan eni er mwyn helpu i gefnogi'r menywod a'u babi pan fyddant yn feichiog.**

Gwelsom fod gwybodaeth eang ar gael i fenywod a phobl sy'n rhoi genedigaeth ar wefan y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am feichiogrwydd a hybu iechyd. Roedd y wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Mae cyfleuster ar gael i gyfieithu gwybodaeth ar wefan y bwrdd iechyd i ddewis iaith y darllenydd. Dywedwyd wrthym fod gwasanaethau mamolaeth o fewn y bwrdd iechyd yn gweithio tuag at sicrhau 'mynediad agored' i bob menyw nad yw'n gallu cyfathrebu yn Saesneg drwy gydol ei beichiogrwydd.

Cawsom wybod bod Bydwraig Cydgysylltu Bwydo Babanod ar gael yn y Ganolfan Eni. Rhoddir hyfforddiant priodol i Fydwragedd a Chynorthwywyr Gofal Mamolaeth er mwyn helpu menywod i fwydo ar y fron. Caiff y grwpiau hyn eu cynnal gan y staff yn ogystal â gwirfoddolwyr.

**Gofal urddasol a pharchus**

Roedd yr uned yn dawel yn ystod ein harolygiad ac ni chafodd y tîm arolygu gyfle i weld enghreifftiau o ofal wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, drwy gydol yr arolygiad gwelsom y staff yn croesawu menywod a oedd yn cyrraedd y Ganolfan Eni ar gyfer apwyntiadau cyffredin gyda gofal, caredigrwydd a pharch. Hefyd, gwelsom enghreifftiau o ryngweithio llawn parch gan y staff yn ystod sgyrsiau dros y ffôn.

Roedd pob ystafell eni yn bwrpasol ac yn lân ac yn cynnig ymdeimlad o 'gartref oddi cartref' er mwyn sicrhau amgylchedd lle gallai menywod a'u partneriaid geni ymlacio. Roedd murlun wedi'i baentio ar un o waliau'r uned, ac roedd yr ystafelloedd yn cynnwys negeseuon cadarnhaol a phwerus am feichiogrwydd, gan gynnwys:

> *"Birth is powerful, and so am I"*.

Roedd ystafell ymolchi a rennir yn cysylltu dwy ystafell, ac roedd prosesau ar waith i sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y menywod yn cael eu cynnal wrth ddefnyddio'r ystafell ymolchi. Mae drysau a llenni yn yr ystafelloedd geni i sicrhau preifatrwydd. Gwelyau dwbl yw'r gwelyau ôl-enedigol ac mae croeso i bartneriaid aros dros nos os bydd angen i gefnogi'r menywod a'u babanod. Roedd cyfleusterau te a choffi ar gael yn yr ystafelloedd.

Gwelsom fod dyfeisiau meddygol yn cael eu cuddio mewn droriau a thu ôl i'r bleinds er mwyn sicrhau amgylchedd cartrefol.

**Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Roedd ailagor y Ganolfan Eni ym mis Medi 2024 yn rhoi dewis ychwanegol i fenywod a'u partneriaid geni o ran eu profiad o roi genedigaeth yn ardal y bwrdd iechyd. Roedd adborth gan y cleifion, a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, yn adlewyrchu profiad cadarnhaol menywod sy'n rhoi genedigaeth a'u partneriaid yn y Ganolfan Eni. Cadarnhawyd hyn yn ystod trafodaethau â'r staff a ddangosodd eu brwdfrydedd a'u hagwedd gadarnhaol mewn perthynas ag ailsefydlu'r Ganolfan Eni.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau i amddiffyn a hyrwyddo dewisiadau'r menywod o fewn meini prawf y bwrdd iechyd a'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer genedigaethau mewn canolfannau geni. Dywedwyd wrthym fod taflenni gwybodaeth am agweddau allweddol ar feichiogrwydd a'r cyfnod esgor yn cael eu darparu, a bod trafodaethau am enedigaeth yn cael eu cynnal yn ystod wythnos 36 ac y dylent gael eu cynnal yn ystod pob asesiad cynenedigol. Lle y bo angen, caiff menywod eu hatgyfeirio at y Fydwraig Ymgynghorol er mwyn cael cynlluniau gofal wedi'u personoli. Cafodd

enghreifftiau o ofal cleifion cynhwysfawr a thrafodaethau ynghylch anghenion eu rhannu â'r tîm arolygu.

Roedd system ar waith i nodi dewis iaith y menywod yn eu cofnodion ar unwaith. Dywedodd y staff wrthym y defnyddir Language Line i gysylltu ag unigolion lle bo angen, a bod dehonglwyr wyneb yn wyneb yn cael eu cynnig ar gyfer gofal yn ystod genedigaeth. Mae iaith arwyddion ar gael drwy Language Line hefyd.

Dywedwyd wrthym am fenter ddiweddar y bartneriaeth Lleisiau Mamolaeth a lansiwyd yn y Ganolfan Eni i helpu i gynnal trafodaethau am opsiynau o ran genedigaeth a'r dewisiadau sydd ar gael i rieni a'u helpu i wneud penderfyniadau gwybodus.

Caiff dosbarthiadau cynenedigol eu cynnig yn y Ganolfan Eni. Gall y menywod a'u partneriaid geni fynychu'r dosbarthiadau hyn i'w helpu i baratoi ar gyfer y cyfnod esgor a genedigaeth eu babi. Mae'r bydwragedd yn mynd â menywod a'u partneriaid geni o gwmpas yr uned i'w hyrwyddo fel opsiwn rhoi genedigaeth i'r rhai sy'n gymwys yn unol â'r canllawiau rhoi genedigaeth, ac i'w helpu i wneud dewisiadau gwybodus am eu hopsiynau rhoi genedigaeth.

Disgrifiodd y staff eu huchelgais i ddatblygu'r Ganolfan Eni ymhellach fel Hwb canolog, gan sicrhau bod gwasanaethau ar gael i gymunedau a darparu gofal cynenedigol ac ôl-enedigol diogel. Dywedwyd wrthym fod clinigau'n cael eu cynnal gyda meddygon ymgynghorol yn y Ganolfan Eni, a bod apwyntiadau sonograffeg hefyd yn cael eu cynnig. Y weledigaeth yw cynnwys cyfleusterau ychwanegol yn yr hwb, fel gwasanaeth sgrinio babanod newyddanedig.

## Amserol

**Gofal amserol**
Mae'r Ganolfan Eni ar agor ac mae staff ar gael 24 awr y dydd. Gall unrhyw fenyw sy'n bodloni meini prawf y bwrdd iechyd ar gyfer geni mewn canolfan eni ddefnyddio'r ganolfan.

Mae canllawiau a gweithdrefnau clir ar waith yn y Ganolfan Eni ar gyfer trosglwyddo gofal mewn modd amserol i uned obstetreg, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth yn yr uned a oedd yn cynnwys yr amseroedd trosglwyddo o'r Ganolfan Eni i uned obstetreg. Cawsom ein sicrhau bod trosglwyddiadau yn cael eu hintegreiddio i systemau blaenoriaeth Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac yn cael eu cynnal mewn modd amserol. Hefyd, yn ystod trafodaethau â'r staff, cadarnhawyd bod cydberthnasau gwaith cadarnhaol â staff yr uned obstetreg wrth ymgynghori ar drosglwyddiadau gofal a pharatoi ar eu cyfer.

Gwnaethom edrych ar Ganllawiau Cymru Gyfan ar Drosglwyddiadau Mamolaeth o Unedau Mamolaeth Cymunedol ac Annibynnol ar Wisdom. System wybodaeth Cymru gyfan ar gyfer adrannau Obstetreg, Gynaecoleg a Bydwreigiaeth yw Wisdom. Mae'r canllawiau hyn, a ddatblygwyd gan y bwrdd iechyd, yn deillio o opsiynau trosglwyddo yn seiliedig ar risg a ddefnyddir o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Dywedwyd wrthym fod y gwaith hwn wedi cael ei gynnwys ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Coleg Brenhinol y Bydwragedd yn 2024. **Roedd hyn yn arfer canmoladwy yn ein barn ni.**

Roedd system ar waith ar gyfer cofnodi ac adolygu'r holl drosglwyddiadau gofal o'r Ganolfan Eni i'r Uned Obstetreg. Roedd yr amseroedd trosglwyddo yn cael eu monitro ac roedd unrhyw drosglwyddiadau “y tu hwnt i'r llwybr”, er enghraifft sgôr AGPAR gwael, yn cael eu cofnodi ar system Datix. Esboniwyd y byddai arweinydd Ansawdd a Diogelwch y gwasanaethau mamolaeth yn cael gwybod am unrhyw oedi o ran trosglwyddiadau er mwyn dysgu gwersi a/neu nodi cyfleoedd a gollwyd. Byddai unrhyw bryderon adrannol yn cael eu huwchgyfeirio, a chaiff unrhyw oedi o ran trosglwyddiadau eu cofnodi, eu rheoli ac ymchwilir iddynt.

Cynhelir cyfarfod adolygu trosglwyddiadau yn fisol, ac roedd yn gadarnhaol nodi bod cynrychiolydd o Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn bresennol. **Nodwyd gennym fod hyn yn arfer canmoladwy gan ei fod yn sicrhau prosesau cyfathrebu gwell a chyfle i ddysgu ar y cyd.**

Dywedodd uwch-aelodau o'r staff wrthym am drafodaethau a gynhelir ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i sicrhau bod cerbyd yr Ymddiriedolaeth ar gael i drosglwyddo cleifion er mwyn darparu gwasanaeth trosglwyddo mwy cyson ac effeithlon pan fo angen

Gwnaethom edrych ar dair set o nodiadau clinigol menywod a oedd wedi cael eu trosglwyddo o'r Ganolfan Eni i'r Uned Obstetreg yn Ysbyty Singleton. Nodwyd bod yr amseroedd trosglwyddo yn gadarnhaol ac yn amserol, bod trefniadau uwchgyfeirio priodol ar waith pan fo aciwtedd yn uchel o ran Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a chanlyniadau da ar gyfer yr holl fenywod a babanod. Roedd y nodiadau yn nodi bod staff y Ganolfan Eni yn cael eu cefnogi'n effeithiol a bod prosesau cyfathrebu cadarnhaol a rheolaidd rhwng bydwragedd y Ganolfan Eni â'r Cydgysylltwyr yn Ysbyty Singleton, er mwyn sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r aciwtedd ym mhob lleoliad.

Rydym yn argymell y dylai'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar opsiynau a phrosesau er mwyn trosglwyddo menywod o'r Ganolfan Eni i ofal aciwtedd uwch yn ddiogel, a mireinio'r rhain ymhellach. Bydd hyn yn sicrhau bod pob parti yn ymwybodol o unrhyw faterion sy'n codi o ran trosglwyddiadau o hyd.

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal y cleifion a gadarnhaodd fod anghenion personol y cleifion, a'u hanghenion o ran maeth a chysur, yn cael eu hystyried yn rheolaidd. Gwnaethom ystyried y ffordd roedd menywod a'r bobl sy'n rhoi genedigaeth yn cael eu cefnogi i reoli eu poen a chawsom wybod am nifer o opsiynau lladd poen a oedd yn briodol i Ganolfan Eni a oedd ar gael yn hawdd ac mewn modd amserol.

## Teg

### Cyfathrebu ac iaith

Gwnaethom edrych ar yr arwyddion ar gyfer y bobl sy'n cyrraedd y Ganolfan Eni. Gwelsom mai ychydig iawn o arwyddion oedd i'w gweld a'u bod yn rhy fach i sylwi arnynt yn hawdd. **Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwella arwyddion yr ysbyty ar gyfer y Ganolfan Eni er mwyn helpu i gyfeirio menywod a'u partneriaid geni i'r ganolfan gyda'r nod o wella eu profiad cyffredinol.**

Roedd yn bosibl adnabod aelodau o staff y Ganolfan Eni sy'n siarad Cymraeg gan eu bod yn gwisgo bathodynnau Iaith Gwaith. Gwelsom fod gwybodaeth ddwyieithog ar yr hysbysfyrddau i gleifion ym mhob rhan o'r uned yn ogystal ag ar wefan y bwrdd iechyd. Roedd hyn yn sicrhau bod gofal drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei gynnig i'r menywod a'u teuluoedd. Dywedodd y staff wrthym y defnyddir Language Line i gysylltu ag unigolion lle bo angen, a bod dehonglwyr wyneb yn wyneb yn cael eu cynnig ar gyfer gofal yn ystod genedigaeth.

Nododd trafodaethau â'r staff ddulliau a oedd ar waith i ddatrys unrhyw rwystrau ieithyddol, problemau iechyd meddwl, neu anawsterau dysgu. Byddai cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi'r menywod a'u partneriaid geni, a byddant yn cael cefnogaeth briodol. Caiff menywod sydd â phroblemau iechyd meddwl sy'n dymuno rhoi genedigaeth yn y Ganolfan Eni eu hatgyfeirio at y Fydwraig Iechyd Meddwl Amenedigol Arbenigol a fyddai'n datblygu cynllun wedi'i bersonoli.

Dywedwyd wrthym fod pob person sy'n rhoi genedigaeth yn cael cynnig y Ganolfan Eni fel opsiwn os yw'n bodloni'r meini prawf a'r canllawiau ar roi genedigaeth. Dywedodd y staff wrthym am gynlluniau sydd ar waith i ddatblygu'r gwaith mewngymorth i ymgysylltu ymhellach â chymunedau amrywiol a mwy difreintiedig a hyrwyddo'r Ganolfan Eni ynddynt er mwyn cynyddu amrywiaeth y bobl sy'n rhoi genedigaeth a'r teuluoedd sy'n defnyddio'r ganolfan.

### Hawliau a Chydraddoldeb

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a'r angen i wneud addasiadau rhesymol, fel bod pawb, gan gynnwys unigolion â nodweddion gwarchodedig, yn gallu defnyddio'r gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym y gall pobl feichiog gael gafael ar wybodaeth am feichiogrwydd drwy'r codau QR a gaiff eu darparu gan eu bydwraig gymunedol. Esboniwyd wrthym fod y staff yn cadarnhau bod gan y bobl feichiog gysylltiad â'r rhyngrwyd. Os nad oes ganddynt gysylltiad â'r rhyngrwyd, caiff copïau caled o'r wybodaeth eu darparu. Er bod dull safonol ar waith ar gyfer y codau QR, rhoddodd y staff cymunedol wybod i ni eu bod yn dosbarthu taflenni ar sail unigol. Er bod hyn o fudd i rai, gall achosi anghydraddoldeb gan ei fod yn seiliedig ar flaengaredd y fydwraig gymunedol. **Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut mae'n sicrhau bod gwybodaeth am feichiogrwydd ar gael i bob person beichiog fel bod pawb yn cael eu trin yn deg.** Esboniwyd wrthym fod taflenni ôl-enedigol sydd wedi'u personoli ar gyfer sefyllfaoedd menywod unigol yn cael eu darparu.

Mae polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y bwrdd iechyd sy'n hygyrch i'r staff drwy Wisdom. Mae hyfforddiant gorfodol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith i'r staff a nodwyd yn ystod trafodaethau â'r staff fod dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar waith.

Dywedodd y staff wrthym am drefniadau i alluogi cleifion o wahanol ffydd i ddefnyddio'r ystafelloedd amlbwrpas i fyfyrio / gweddïo yn dawel yn ôl yr angen.

Mae'r Ganolfan Eni wedi'i lleoli ar lawr cyntaf yr ysbyty ac mae lifft ar gael i gyrraedd y ganolfan. Roedd yr holl goridorau a oedd yn arwain at y Ganolfan Eni, a choridorau'r ganolfan ei hun, yn llydan, yn glir ac yn daclus.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli risg**

Gwnaethom edrych ar adroddiad a oedd wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd cyn ailsefydlu'r gwasanaethau yn y Ganolfan Eni. Roedd y papur cynhwysfawr yn rhoi sicrwydd mewn perthynas ag ailsefydlu'r gwasanaethau cymunedol yn ddiogel ac yn sicrhau bod modd nodi a lliniaru risgiau y gellir eu rheoli yn barod ar gyfer ailgyflwyno llwybrau gofal cymunedol yn ystod genedigaeth ar 16 Medi 2024.

Disgrifiodd y staff y systemau a'r polisïau effeithiol ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol ac fe'u gwelsom ar waith. Roedd y staff yn ymwybodol o'r polisïau iechyd a diogelwch a dywedwyd wrthym eu bod yn cael eu hannog i roi gwybod am unrhyw faterion diogelwch.

Roedd prosesau a meini prawf clir ar waith a oedd yn cael eu rhannu'n effeithiol er mwyn lliniaru risgiau a sicrhau bod menywod a oedd yn dymuno rhoi genedigaeth yn y ganolfan yn dilyn y meini prawf a'r canllawiau caeth.

Dywedwyd wrthym fod cludiant a throsglwyddo gofal wedi'u cynnwys ar gofrestr risg y bwrdd iechyd a oedd yn cael ei monitro ac roedd camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb iddi pan fo angen.

Roedd y staff wedi cael hyfforddiant a gallant ddisgrifio'r broses ar gyfer gwagio'r pwll geni a'r cyfarpar a ddefnyddir i sicrhau diogelwch y cleifion wrth ddefnyddio'r pwll. Roedd cyfarpar ar gyfer gwagio'r pwll geni mewn argyfwng ar gael yn yr ystafelloedd â phwll geni, y gellid ei ddefnyddio pe bai cymhlethdodau yn ystod genedigaeth ddŵr.

Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

O ystyried natur y gwasanaeth bach a ddarperir yn y Ganolfan Eni, gwelsom gyfathrebu cyson ac effeithiol rhwng y staff. Roedd hyn yn sicrhau bod y staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am risgiau parhaus a'r risgiau sy'n dod i'r amlwg gan yr uwch-reolwyr er mwyn sicrhau y caiff unrhyw risgiau posibl eu lleihau.

Gwelsom fod yr uned yn lân ac yn daclus ac nad oedd unrhyw beryglon yno. Roedd pob rhan o'r uned mewn cyflwr da. Roedd prosesau ac archwiliadau priodol ar waith yn yr uned i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a threfniadau rheoli heintiau.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd pob rhan o'r Ganolfan Eni yn lân yr olwg, yn daclus ac nid oedd unrhyw annibendod. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r polisïau rheoli heintiau a'r safonau y dylent gydymffurfio â nhw. Gwelsom ddata a oedd yn dangos bod archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cynnal yn rheolaidd gyda chyfraddau cydymffurfiaeth uchel.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom restrau gwirio a oedd wedi'u cwblhau ar gyfer glanhau'r ystafelloedd a'r cyfarpar.

**Diogelu plant ac oedolion**

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y bwrdd iechyd i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion a all fod yn wynebu risg. Roedd hyfforddiant diogelu yn orfodol i bob aelod o'r staff a gwelsom fod lefelau cydymffurfiaeth yn uchel iawn.

Roedd staff y Ganolfan Eni yn gallu gweld gweithdrefnau diogelu'r bwrdd iechyd drwy Wisdom. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran y gweithdrefnau y byddent yn eu dilyn pe bai ganddynt bryder diogelu.

Gwnaethom ystyried amgylchedd yr uned a gwelsom fod mesurau diogelwch digonol ar waith i sicrhau bod babanod yn ddiogel yn yr uned. Roedd mynediad i'r Ganolfan Eni wedi'i gyfyngu gan ddrysau wedi'u cloi, na ellid eu hagor heb bàs staff neu heb i aelod o'r staff gymeradwyo mynediad. Mae larwm wedi'i osod ar fatresi'r cotiau, ac mae system fonitro CCTV ger desg y bydwragedd cydgysylltu yn yr uned.

Nid oedd ymarfer herwgydio babanod wedi cael ei gynnal o fewn y pum mis ers ailagor y Ganolfan Eni. Gwnaethom drafod hyn â'r uwch-reolwyr, a gadarnhaodd bod ymarfer wedi'i drefnu yn fuan.

**Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal ymarfer herwgydio babanod yn y Ganolfan Eni cyn gynted â phosibl. Dylid rhannu unrhyw wersi cysylltiedig yn deillio o'r ymarfer â'r staff.**

**Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Wrth arsylwi ar y staff ac yn ystod trafodaethau â nhw, gwelsom fod cyfarpar a dyfeisiau meddygol priodol yn y Ganolfan Eni i ddiwallu anghenion y menywod a'r bobl sy'n rhoi genedigaeth.

Cadarnhaodd y ddogfennaeth a welsom fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar gyfarpar i sicrhau ei fod yn addas i'w ddefnyddio. Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol. Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar hwn. Gwelsom fod pecynnau safonol ar gael ym mhob ystafell eni. Roedd hyn yn sicrhau y gall y staff gael gafael ar gyfarpar yn gyson pan fo angen.

**Rheoli meddyginiaethau**

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel. Roedd codau lliw yn cael eu defnyddio ar gyfer allweddi'r cypyrddau cyffuriau brys er eglurder ac er mwyn cael gafael arnynt yn gyflym mewn argyfwng. **Roeddem o'r farn bod hyn yn arfer canmoladwy.**

Gwelsom dystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth yn cael ei wirio'n ddyddiol er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.

## Effeithiol

**Gofal effeithiol**

Roedd gan y bwrdd iechyd Ddangosfwrdd Mamolaeth ac Obstetreg. Ar adeg ein harolygiad, roedd dangosfwrdd mamolaeth, a oedd yn benodol ar gyfer gwasanaeth y ganolfan eni, wedi cael ei ddatblygu ac wrthi'n cael ei fireinio'n derfynol. Roedd y dangosfwrdd yn rhoi cyfle i feincnodi gwasanaethau yn erbyn gwasanaethau tebyg ledled Cymru. Rhoddwyd sicrwydd i ni fod gweithgareddau clinigol a chanlyniadau'r cleifion yn cael eu goruchwylio'n effeithiol.

Mae'r Ganolfan Eni yn defnyddio hunanasesiad Safonau Unedau Bydwreigiaeth sy'n cynnwys fframwaith strwythuredig er mwyn helpu i gwblhau'r hunanasesiad a gwella unedau mamolaeth. Gwnaethom edrych ar ddogfennaeth hunanaseu'r Ganolfan Eni a nodwyd gennym fod y gwaith i gwblhau'r safonau yn mynd rhagddo. **Rydym yn argymell y dylai'r bwrdd iechyd barhau i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn gweithio tuag at gyrraedd y Safonau Unedau Bydwreigiaeth.**

**Maeth a hydradu**

Yn ystod ein harolygiad, ni welsom y gwasanaeth yn gweini bwyd. Roedd cyfleusterau dŵr a the a choffi ar gael ym mhob ystafell yn y Ganolfan Eni. Dywedodd y staff wrthym fod bwyd poeth ar gael drwy gyfleusterau'r ysbyty a bod bwyd oer ar gael yn hwylus pan fo angen.

### Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar chwe set o gofnodion clinigol. Ar y cyfan, gwelsom fod y cofnodion yn cael eu cadw i safon dda a'u bod yn hyrwyddo dewisiadau priodol y cleifion. Roedd y cofnodion yn glir, yn ddarllenadwy ac yn drefnus iawn.

## Effeithlon

### Effeithlon

Esboniwyd wrthym fod llyfr gwaith E-gymunedol digidol wedi cael ei roi ar waith yn ddiweddar. Caiff yr holl ymweliadau cartref ac apwyntiadau'r clinig eu cofnodi ar y system. **Mae hyn yn enghraifft o arfer canmoladwy yn ein barn ni** ac mae'n cyd-fynd â'r polisi ar gyfer gweithio ar eich pen eich hun gan fod angen i'r fydwraig gymunedol gofnodi amser dechrau'r alwad ac amser gorffen yr alwad ar ôl cwblhau'r ymweliad. Mae hyn yn sicrhau y gellir olrhain bydwragedd at ddibenion diogelwch. Bydd y system hefyd yn helpu i rannu'r llwyth achosion a sicrhau na chaiff unrhyw alwadau eu methu pan fo aelod o'r tîm yn absennol neu'n sâl. Roedd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw yn falch bod y system newydd wedi cael ei chyflwyno.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli ar waith gyda llinellau adrodd ac atebolrwydd clir. Roedd swyddi parhaol ar waith a oedd yn dangos gwelliant sylweddol o ran y lefelau staffio o gymharu â'n harolygiadau blaenorol o wasanaethau mamolaeth Bae Abertawe. Gwnaethom gyfarfod â'r arweinwyr brwdfrydig sy'n gyfrifol am y Ganolfan Eni a rannodd weledigaeth y dylai menywod a theuluoedd gael y gofal gorau posibl o dan arweiniad bydwragedd mewn amgylchedd cartrefol. Dywedodd yr arweinwyr a'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym am y newid cadarnhaol yn niwylliant gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd ers ailsefydlu'r Ganolfan Eni.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod dogfen y porth a ddatblygwyd i sicrhau y gellid ailagor y ganolfan yn ddiogel yn canolbwyntio ar y lefelau staffio a chymhwysedd. Yn ystod trafodaethau â'r rheolwyr a'r staff, roedd yn glir bod y tîm rheoli bydwreigiaeth wedi cefnogi'r broses o ailagor y Ganolfan Eni yn sylweddol ac mewn ffordd gadarnhaol. Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn niwylliant cydlynol a chefnogol yr uned.

Mae penodi Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth parhaol wedi rhoi llais clir i wasanaethau mamolaeth o fewn y bwrdd iechyd ar lefel y bwrdd, sy'n galluogi'r Bwrdd i ddeall y gwasanaethau hyn yn well.

Gwnaethom siarad â'r Fydwraig Ymgynghorol, sydd wedi'i lleoli yn y Ganolfan Eni ac sydd hefyd yn goruchwylio'r ganolfan. Gallai'r staff ofyn am gyngor ganddi ac roedd wrthi'n arwain y gwaith o ddatblygu polisïau ac arferion newydd a'u rhoi ar waith yn y gwasanaeth mamolaeth. Mae uwch-reolwyr eraill wedi'u lleoli yn yr uned yn rheolaidd, gyda rhai ohonynt yn rhannu eu hamser rhwng yr uned a'r gwasanaethau mamolaeth yn Ysbyty Singleton. Gwnaethom nodi enghraifft o arwain drwy esiampl gan fod yr uwch-reolwyr yn gwisgo gwisgoedd bydwragedd ac yn gweithio shifftiau banc yn ôl yr angen i gefnogi'r gwasanaeth.

Dywedwyd wrthym fod sgrym diogelwch yn cael ei gynnal yn ddyddiol gyda'r staff am 9.30am o ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae uwch-reolwyr unedau mamolaeth y Ganolfan Eni ac Ysbyty Singleton yn ymuno â'r sgrymiau hyn dros Teams a chaiff aciwtedd ei adolygu gan ystyried y gweithlu sydd ar gael. Roedd y ddogfennaeth a welwyd yn nodi bod y systemau aciwtedd yn defnyddio graddau coch, melyn a gwyrdd i bennu aciwtedd a lefelau staffio diogel. Mae'r sgrymiau yn cynnwys adolygiad ôl-weithredol o aciwtedd, lefelau staffio ac effeithiau'r 24 awr flaenorol. Mae hefyd yn cynnwys camau cynllunio ymlaen llaw ar gyfer y tri diwrnod nesaf.

Roedd hyn yn sicrhau y gellir craffu ar y sefydliad yn barhaus. **Roedd hyn yn arfer canmoladwy yn ein barn ni.**

Nododd y staff eu bod yn cael eu hannog i uwchgyfeirio unrhyw faterion yn ymwneud â chapasiti. Roedd y staff yn gyfarwydd â'r polisi uwchgyfeirio ac yn gwybod ble i gael gafael arno. Gwnaethant ddisgrifio'r prosesau a oedd wedi'u cynnwys yn y polisi ar gyfer cynnal gwasanaeth diogel bob amser pe bai'r uned yn llawn, neu bron yn llawn. Gwnaethom hefyd edrych ar siart lif gynhwysfawr a oedd ar waith i arwain y staff yn ystod y broses uwchgyfeirio. Dywedodd y staff wrthym y byddent yn fodlon rhoi'r broses uwchgyfeirio ar waith pe bai angen, a phe bai ganddynt bryderon sylweddol. Roedd hyn yn dangos bod y staff yn teimlo'n ddiogel yn seicolegol i herio arweinwyr yn briodol ac yn dangos amgylchedd gwaith cefnogol a chadarnhaol. At hynny, dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod sgyrsiau Caffi yn cael eu cynnal fel dull llai ffurfiol o ymgysylltu â'r staff, er mwyn eu hannog a'u galluogi i leisio barn.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r canllawiau bydwreigiaeth, meddygol a chlinigol ar gyfer y staff sydd ar gael ar Wisdom. Nodwyd gennym mai hen fersiynau o'r polisïau a oedd ar gael ar Wisdom oedd rhai o'r polisïau papur a oedd yn y Ganolfan Eni. **Dylai'r bwrdd iechyd archwilio, diweddaru a rhannu canllawiau a pholisïau sy'n ymwneud â gofal mamolaeth.**

Mae'r bwrdd iechyd yn dilyn model y Brif Swyddfa Nyrsio ar gyfer goruchwylio bydwragedd yn glinigol ac mae un Goruchwylydd Clinigol ar gyfer Bydwragedd mewn swydd ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod y gwaith da a gaiff ei gwblhau; fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym y byddai'r gwasanaeth mamolaeth yn elwa ar gymorth ychwanegol, gan y bwrdd iechyd cyfan, i sicrhau bod pob bydwraig yn cael ei chefnogi i ymarfer, gan gynnwys i ddiwallu ei hanghenion datblygu. **Dylai'r bwrdd iechyd adolygu capasiti y Goruchwylydd Clinigol ar gyfer Bydwragedd ac ystyried a oes angen cymorth ychwanegol.**

Ar adeg ein harolygiad, dywedwyd wrthym y bu 62 o enedigaethau yn y Ganolfan Eni ers iddi ailagor. Er y byddai wedi bod yn bosibl cynyddu nifer y genedigaethau, bu'r cyfnod hwn yn gyfle i brofi'r holl brosesau a oedd ar waith. Erbyn hyn, mae angen ymgorffori'r gwasanaeth ymhellach yn strwythur gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn hyderus i atgyfeirio menywod at wasanaeth y ganolfan eni a'i hyrwyddo, a chynyddu nifer y bobl sy'n ei defnyddio. **Dylai'r bwrdd iechyd barhau i rannu'r dystiolaeth mewn perthynas â'r gofal a ddarperir yn y Ganolfan Eni â chydweithwyr ehangach er mwyn eu hannog i atgyfeirio menywod at y gwasanaeth yn briodol a sicrhau bod dewis ar gael iddynt. Byddai hyn yn sicrhau bod yr holl fenywod sy'n gymwys i roi genedigaeth yn y Ganolfan Eni yn ymwybodol o'u dewisiadau, gyda'r nod o gynyddu nifer y genedigaethau yn y ganolfan.** Roedd yn gadarnhaol nodi bod

nifer y genedigaethau yn y brif uned obstetreg wedi gostwng o ganlyniad i ailagor y Ganolfan Eni.

Roedd y staff yn teimlo'n hyderus y gallant godi pryderon a gwnaethant gyfeirio at ddiwylliant cadarnhaol mewn perthynas â chofnodi ar Datix a dysgu o ddigwyddiadau. Esboniodd uwch-arweinwyr y broses ar gyfer cofnodi digwyddiadau, ymchwilio iddynt a rhannu'r gwersi a ddysgwyd. Caiff unrhyw wersi a ddysgwyd o ddigwyddiadau eu rhannu â phob aelod o'r staff yn brydlon ac mewn ffordd gadarnhaol. Byddai unrhyw themâu neu dueddiadau'n cael eu nodi fel rhan o'r broses. Rhannwyd enghreifftiau â ni o ddwy alwad goch yr ymatebodd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru iddynt lle y bu oedi wrth drosglwyddo'r unigolion i'r uned obstetreg. Nid arweiniodd hyn at unrhyw ganlyniadau andwyol; fodd bynnag, mae'n gadarnhaol nodi y bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch.

Dywedwyd wrthym am ymarfer cadarnhaol gydag enghreifftiau o gydweithio â byrddau iechyd lleol eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar brosiectau gwella fel dysgu o ddigwyddiadau.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Mae'r uned yn darparu model 24/7 cefnogol sy'n sicrhau bod cymorth gan uwch-aelodau o staff bydwreigiaeth ar gael i bob bydwraig gymunedol sy'n gweithio yn yr amgylchedd. Rheolwr Tîm Cymunedol band 7 a neilltuir i bob shifft sy'n gyfrifol am gydlynu, monitro ac uwchgyfeirio'r gwasanaethau hyn yn briodol. Mae bydwraig gymunedol ar alwad a gaiff ei galw i'r ganolfan pan fo angen i roi cymorth yn ystod genedigaeth a sicrhau lefelau diogel o ofal i fenywod. Caiff y gwasanaethau cymunedol eu staffio yn unol â chyfraddau Birthrate Plus.

Roedd y rheolwyr yn weladwy yn yr uned ac roedd sylwadau yn nodi eu bod yn garedig, yn gyfeillgar, yn gefnogol ac yn hawdd mynd atynt. Gwelsom fod timau sy'n gweithredu'n effeithiol ar waith. Er mai dim ond yn ddiweddar y mae'r gwasanaeth wedi ailagor ar ôl cyfnod hir o fod ar gau, mae'r ganolfan yn derbyn y gall fod angen newid prosesau yn sgil adborth gan gleifion neu'r staff ac mae'r arweinwyr yn hyderus i gynnig newidiadau. Yn ystod ein harolygiad, gwelsom gydberthnasau gwaith cadarnhaol ac effeithiol a morâl uchel ymhlith y staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo bod y rheolwyr yn eu cefnogi a'u bod yn gwrando arnynt. Nododd y staff hefyd fod cydberthnasau gwaith da ymhlith y bydwragedd yn y Ganolfan Eni a'r uned obstetreg wrth gydgysylltu â'i gilydd ar drosglwyddiadau gofal.

Gwnaethom edrych ar y rotas, a chadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod yr uned yn cydymffurfio â Birthrate Plus.

Gwnaethom nodi bod y swyddi gwag a'r cyfraddau salwch yn isel yn y Ganolfan Eni. Caiff y lefelau staffio eu rheoli'n dda ac nid yw'r gwasanaeth yn dibynnu'n ormodol ar staff banc, gyda dim ond un fydwraig banc yn cael ei defnyddio i gyflenwi pan fo angen.

Gwnaethom edrych ar brosesau i fonitro presenoldeb y staff a'u cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Roedd y cyfraddau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol cyffredinol ar lefel o 94% ar adeg ein harolygiad. Roedd cyfraddau cydymffurfiaeth â Hyfforddiant Amlbroffesiynol Obstetrig Ymarferol (PROMPT) cymunedol ar adeg yr arolygiad ar lefel o 95%. Roedd cydymffurfiaeth â hyfforddiant gwyliadwriaeth ffetysol a babanod yn 95%, cydymffurfiaeth â hyfforddiant Gap Grow yn 89% a chydymffurfiaeth â hyfforddiant bwydo ar y fron BFI yn 95%. Roedd y cyfraddau cydymffurfiaeth da yn dangos bod y systemau a'r prosesau sydd ar waith ar gyfer hyfforddiant staff yn y meysydd gorfodol hyn yn effeithiol a bod menywod a theuluoedd sy'n defnyddio'r Ganolfan Eni yn cael eu trin gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n dda.

Mae'r lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant a'r cyfraddau salwch a swyddi gwag isel yn helpu i ddarparu gweithlu sefydlog a medrus sy'n diwallu anghenion menywod a'u babanod.

Roedd cyfraddau cwblhau Adolygiad Arfarnu a Datblygu Perfformiad y staff mamolaeth dros y flwyddyn ddiwethaf yn gadarnhaol, gyda chyfraddau cydymffurfiaeth uchel o 85%.

Gwnaethom hefyd edrych ar ddogfen ar gyfer Rhaglen Sefydlu Bydwragedd Cymunedol a oedd yn cynnwys canllaw clir ar gyfer bydwragedd cymunedol newydd eu penodi i'w cefnogi wrth symud i weithio mewn amgylchedd cymunedol.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**

Gwnaethom edrych ar yr amrywiaeth o ffyrdd y mae'r bwrdd iechyd yn annog menywod i roi adborth ar eu profiadau. Nodwyd gennym fod sawl cyfle i fenywod roi adborth ar eu profiadau ar wahanol adegau yn ystod eu taith famolaeth.
Bydd recriwtio Bydwraig Profiad y Claf a rhoi holiadur craidd ar waith i ddeall taith beichiogrwydd menywod yn well yn rhoi trosolwg ehangach o farn a safbwyntiau pobl er mwyn llywio a gwella'r gwasanaethau a'r diwylliant.

Roedd diwylliant dysgu cadarnhaol yn y Ganolfan Eni. Caiff cyfleoedd dysgu eu rhannu â'r bwrdd iechyd cyfan ac mae'r Goruchwylydd Clinigol ar gyfer Bydwragedd

yn gweithio ochr yn ochr â chydweithwyr ar draws byrddau iechyd yng Nghymru. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod y diwylliant dysgu wedi gwella'n fawr ers arolygiadau blaenorol AGIC o wasanaethau mamolaeth o fewn ardal y bwrdd iechyd.

Dywedodd y staff wrthym fod adborth gan gleifion yn cael ei rannu â'r staff ar y cyfan. Dywedwyd wrthym fod proses “dywedoch chi, gwnaethom ni” ar waith i gasglu adborth a rhoi newid ar waith.

Roedd proses ffurfiol ar waith ar gyfer rheoli cwynion, ac roedd hon yn cyd-fynd â phroses Gweithio i Wella GIG Cymru. Dywedwyd wrthym na roddwyd gwybod am unrhyw gwynion i'r Ganolfan Eni hyd yma.

## Gwybodaeth

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR) yn yr uned. Ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, gwnaethom nodi bod drws i ystafell ar hyd un o'r coridorau yn y Ganolfan Eni a oedd yn cynnwys cofnodion y cleifion ar agor ac y gallai'r cyhoedd fynd i mewn i'r ystafell honno. Gwnaethom godi hyn gyda'r staff a chafodd y cofnodion eu storio'n ddiogel am weddill yr arolygiad i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion y gellir adnabod unigolion ohoni yn cael ei chadw'n ddiogel.

Roedd y system TG ddiogel ar gael i bob aelod o'r staff. Dywedwyd wrthym fod yr holl ganllawiau ar gael i'w gweld ar gronfa ddata i'r bwrdd iechyd cyfan y gall pob aelod o'r staff ei defnyddio.

## Dysgu, gwella ac ymchwil

### Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth o unigolion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o raglenni ymchwil priodol. Un o'r enghreifftiau a rannwyd oedd y fenter berinëwm a gafodd ei chyflwyno yn y Ganolfan Eni ac a gaiff ei monitro yno.

## Dull systemau cyfan

### Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Nodwyd cydberthnasau gwaith da ag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Er bod eu cydberthynas waith yn gadarnhaol ac yn adeiladol, dywedwyd

wrthym fod heriau o hyd mewn perthynas â chapasiti a'r pwysau ar ddarpariaeth cerbydau'r Ymddiriedolaeth. Dywedwyd wrthym fod trafodaethau yn mynd rhagddynt rhwng y bwrdd iechyd ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn dod i gytundeb i sicrhau bod un o gerbydau'r Ymddiriedolaeth ar gael yn rhwydd ar gyfer trosglwyddiadau gofal.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Llywodraethu Gwybodaeth**<br><br>Ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, gwnaethom nodi bod drws i ystafell ar hyd un o'r coridorau yn y Ganolfan Eni a oedd yn cynnwys cofnodion y cleifion ar agor ac y gallai'r cyhoedd fynd i mewn i'r ystafell honno | Roedd hyn yn peri risg y gallai'r cyhoedd weld gwybodaeth y gellid adnabod cleifion ohoni | Gwnaethom godi hyn â'r staff yn ystod y bore ar ail ddiwrnod ein harolygiad | Cafodd y cofnodion eu storio'n ddiogel am weddill yr arolygiad i sicrhau bod gwybodaeth am gleifion y gellid eu hadnabod ohoni yn cael ei chadw'n ddiogel |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Canolfan Eni Castell-nedd Port Talbot

## Dyddiad yr arolygiad:4, 5 a 6 Chwefror 2025

Mae’r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Nid oedd UNRHYW faterion y mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch | | | | | |
| 2. | | | | | | |
| 3. | | | | | | |
| 4. | | | | | | |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau):**

**Teitl swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Canolfan Eni Castell-nedd Port Talbot

## Dyddiad yr arolygiad: 4, 5 a 6 Chwefror 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1. | **Hybu iechyd**<br><br>Nid oedd gwybodaeth am fwyta'n iach, gweithgarwch corfforol na gwybodaeth i ofalwyr ar gael yn y Ganolfan Eni | Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw ar gael er mwyn helpu i gefnogi'r menywod a'u babi pan fyddant yn feichiog | Creu hysbysfwrdd iechyd i'r cyhoedd a fydd yn cynnwys gwybodaeth am fwyta'n iach, gweithgarwch corfforol a gwybodaeth i ofalwyr yn y Ganolfan Eni | Pennaeth Bydwreigiaeth | 31/05/2025 |
| 2. | **Teg** | Dylai'r bwrdd iechyd ystyried gwella arwyddion yr ysbyty ar | Bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'r | Pennaeth Bydwreigiaeth | 31/05/2025 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwnaethom edrych ar yr arwyddion ar gyfer pobl sy'n cyrraedd y Ganolfan Eni a gwelsom mai ychydig iawn o arwyddion oedd i'w gweld a'u bod yn rhy fach i sylwi arnynt yn hawdd | gyfer y Ganolfan Eni er mwyn helpu i gyfeirio menywod a'u partneriaid geni i'r ganolfan gyda'r nod o wella eu profiad cyffredinol | Bartneriaeth Lleisiau Mamolaeth ac yn ystyried llunio mapiau o leoliadau gwasanaethau mamolaeth y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys Castell-nedd Port Talbot, er mwyn i fenywod a'u teuluoedd gael yr holl wybodaeth am ein lleoliadau a sut i ddod o hyd i ni<br><br>Rhoi unrhyw ddatrysiadau y cytunwyd arnynt ar waith ar ôl eu datblygu a'u cymeradwyo ac yn dilyn prosesau cymeradwyo | <br><br>Pennaeth Bydwreigiaeth Bydwraig Ymgynghorol | <br><br>30/09/2025 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | llywodraethu mewnol | | |
| 3. | **Teg**<br><br>Nodwyd gennym fod anghysondebau o ran y ffordd y gall pobl feichiog gael gafael ar wybodaeth am feichiogrwydd. Er bod dull safonol ar waith gyda chodau QR, rhoddodd y staff cymunedol wybod i ni eu bod yn rhoi taflenni i unigolion na allant gysylltu â'r rhyngrwyd. Er bod hyn o fudd i rai, gall achosi anghydraddoldeb gan ei fod yn seiliedig ar flaengaredd y fydwraig gymunedol | Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sut mae'n sicrhau bod gwybodaeth am feichiogrwydd ar gael i bob person beichiog fel bod pawb yn cael eu trin yn deg | Bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau y caiff dolen ei hychwanegu at dudalen we Bae Abertawe fel bod menywod a'u teuluoedd yn gallu cael gafael ar fersiwn ar-lein o'r llyfryn. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y rhai nad oes ganddynt gysylltiad â'r rhyngrwyd yn gallu cael gafael ar y llyfryn hwn, byddwn yn datblygu pecyn a fydd yn sicrhau bod y wybodaeth briodol ar gael i bob bydwraig gymunedol i'w | Pennaeth Bydwreigiaeth | 30/06/2025 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | rhannu â chleifion. Caiff y pecyn hwn ei rannu â'r arweinwyr tîm | | |
| 4. | **Diogelwch Babanod**<br><br>Nodwyd gennym nad oedd ymarfer herwgydio babanod wedi cael ei gynnal o fewn pum mis ers ailagor y Ganolfan Eni | Rhaid i'r bwrdd iechyd gynnal ymarfer herwgydio babanod yn y Ganolfan Eni cyn gynted â phosibl. Dylid rhannu unrhyw wersi cysylltiedig yn deillio o'r ymarfer â'r staff | Cynhaliwyd ymarfer herwgydio babanod yn y Ganolfan Eni ar 12/3/25. Dangosodd y cyfarfod dadfriffio yn dilyn yr ymarfer fod yr ymarfer herwgydio babanod a'r systemau ar gyfer rheoli hyn yn ddiogel wedi'u rhoi ar waith yn effeithiol a heb unrhyw broblemau | Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth/Metron y Gwasanaethau Cymunedol | Wedi'i gwblhau 12/03/2025 |
| 5. | **Gofal effeithiol** | Dylai'r bwrdd iechyd barhau i gymryd y | Mynychodd y Bwrdd Iechyd | Bydwraig Ymgynghorol | 30/09/2025 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwnaethom edrych ar ddogfen hunanasesu Safonau Unedau Bydwreigiaeth y Ganolfan Eni a nodwyd bod y gwaith i gwblhau'r safonau yn mynd rhagddo | camau angenrheidiol er mwyn gweithio tuag at gyrraedd y Safonau Unedau Bydwreigiaeth | weithdy ar 31.03.2025 ar weithredu Hunanasesiad Safonau Unedau Bydwreigiaeth - bydd y Bwrdd Iechyd yn gweithio drwy gymuned ymarfer ynghyd â phob Bwrdd Iechyd yng Nghymru er mwyn cyrraedd y safonau fel y'i nodir yng nghynllun gweithredu hunanasesu Bae Abertawe<br><br>Mae'r Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol wedi trefnu 5 Sgrym Diogelwch ledled Cymru, bydd yr un olaf | Pennaeth Bydwreigiaeth | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | ym mis Medi 2025, lle bydd pob Bwrdd Iechyd yn rhannu gwersi a ddysgwyd ac arferion da ac yn monitro cynnydd yn erbyn y safonau. Caiff y cynllun gweithredu ei fonitro drwy ddefnyddio trefn reoli efydd, arian ac aur y gwasanaeth ar gyfer adrodd parhaus a'i uwchgyfeirio at y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Bwrdd Rheoli | | |
| **6.** | **Polisïau a Chanllawiau**<br><br>Nid oedd rhai o'r polisïau a'r canllawiau a oedd yn | Dylai'r bwrdd iechyd archwilio, diweddaru a rhannu canllawiau a pholisïau sy'n | Bydd Pwyllgor Canllawiau'r Gwasanaeth yn rhoi tystiolaeth o gynnydd yn erbyn | Pennaeth Bydwreigiaeth | 31/05/2025 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | berthnasol i ofal mamolaeth yn gyfredol neu roedd angen eu hadolygu | ymwneud â gofal mamolaeth | y gwaith o ddiweddaru'r polisïau a'r canllawiau a chaiff hyn ei fonitro drwy ddefnyddio'r drefn reoli efydd, arian ac aur ar gyfer adrodd, yn ogystal â'r cyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Risg Is-adrannol<br><br>Caiff haparchwiliad ei gynnal i sicrhau bod yr holl bolisïau sydd wedi'u hargraffu yn cyd-fynd â'r fersiynau electronig cyfredol | Metron Gymunedol | 30/04/2025 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7. | **Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**<br><br>Rydym yn cydnabod y gwaith da a gaiff ei gwblhau gan y Goruchwylydd Clinigol ar gyfer Bydwragedd; fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym y byddai'r gwasanaeth mamolaeth yn elwa ar gymorth ychwanegol, gan y bwrdd iechyd cyfan, i sicrhau bod pob bydwraig yn cael ei chefnogi i ymarfer, gan gynnwys i ddiwallu ei hanghenion datblygu | Dylai'r bwrdd iechyd adolygu capasiti y Goruchwylydd Clinigol ar gyfer Bydwragedd ac ystyried a oes angen cymorth ychwanegol | Mae'r gwasanaeth wedi adolygu capasiti presennol y Goruchwylydd Clinigol ar gyfer Bydwragedd ac mae'n gwneud cynlluniau i gynyddu'r cymorth i staff 0.8 cyfwerth ag amser llawn. Caiff hyn ei wneud ar lefel interim wrth i ni weithio tuag at ddatrysiad mwy parhaol. | Pennaeth Bydwreigiaeth | 30/06/2025 |
| 8. | **Ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth**<br><br>Mae angen ymgorffori'r gwasanaeth ymhellach yn strwythur gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd | Dylai'r bwrdd iechyd barhau i rannu'r dystiolaeth mewn perthynas â'r gofal a ddarperir yn y Ganolfan Eni â chydweithwyr ehangach er mwyn eu | Mae Canolfan Eni Castell-nedd Port Talbot wedi cynnal diwrnod agored, gan anfon gwahoddiad at fenywod beichiog | Pennaeth Bydwreigiaeth<br>Bydwraig Ymgynghorol | 31/03/2025<br>Wedi'i gwblhau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn hyderus i atgyfeirio menywod at wasanaeth y ganolfan eni a'i hyrwyddo, a chynyddu nifer y bobl sy'n ei defnyddio | hannog i atgyfeirio menywod at y gwasanaeth yn briodol a sicrhau bod dewis ar gael iddynt | a'u teuluoedd ac unrhyw un o fewn ein cymuned famolaeth ar y cyfryngau cymdeithasol. At hynny, mae fideo wedi cael ei greu a'i rannu ar ein llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i ddangos yr amgylchedd geni ac i annog ymwybyddiaeth leol o'r gwasanaeth | | |
| | | Bydd adolygiad bob chwe mis ers ailddechrau'r gwasanaethau yng Nghanolfan Eni Castell-nedd Port Talbot yn cael ei gynnal i ddangos effaith | Pennaeth Bydwreigiaeth Bydwraig Ymgynghorol | 31/05/2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | ailagor y llwybrau geni cymunedol<br><br>Caiff yr adolygiad hwn ei gyflwyno yn ystod y cyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Risg Is-adrannol i'w rannu â'r Timau Mamolaeth ehangach ym Mae Abertawe yn y lle cyntaf. Caiff yr adolygiad ei rannu drwy gyfarfodydd sicrwydd llywodraethu'r bwrdd iechyd yn dilyn hynny. | <br><br>Bydwraig Ymgynghorol | <br><br>30/05/2025 (Cyfarfod Ansawdd, Diogelwch a Risg Is-adrannol) |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Enw (priflythrennau):** | **Kathy Greaves** |
| **Swydd:** | **Cyfarwyddwr Clinigol Bydwreigiaeth** |
| **Dyddiad:** | **01/04/2025** |
| **Enw (priflythrennau):** | **Sharron Price** |
| **Swydd:** | **Cyfarwyddwr Nyrsio Grŵp Gwasanaeth Castell-nedd Port Talbot** |
| **Dyddiad:** | **01/04/2025** |